# Uned 1 UG: Ein Hamgylchedd Adeiledig

## 2.1.3: PROFFESIYNAU a GYRFAOEDD TECHNEGOL

### PENSAERNÏAETH

**Rôl y Pensaer.** Dylunio adeiladau (cynllun ac estheteg), datblygu agweddau technegol eu dyluniadau ar gyfer adeiladu – gan gynnwys datblygiadau preswyl, diwydiannol a masnachol – a gweithio ar brosiectau adfer ac adnewyddu.

**Llwybrau at statws proffesiynol**

1. Gradd a gydnabyddir gan yr ARB, ac yna
2. Blwyddyn o brofiad ymarferol, ac yna
3. Cwrs ôl-raddedig (BArch/DipArch) ac yna
4. Dwy flynedd o brofiad ymarferol ac yna
5. Arholiad cymhwyso terfynol.

Mae llwybrau galwedigaethol amgen yn cynnwys cymwysterau sy'n seiliedig ar ymarfer Stiwdio RIBA.

**Sefydliad(au) Proffesiynol**

ARB Bwrdd Cofrestru Penseiri. Mae angen cofrestru i ddefnyddio'r teitl 'Pensaer'.

RIBA Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain.

### CYNLLUNIO TREFOL

**Rôl Cynllunydd Trefol.** Cydbwyso a chynghori gwleidyddion ar ofynion ar dir gan dai, busnesau, trafnidiaeth a hamdden gydag anghenion pobl a chymdeithas.

**Llwybrau at statws proffesiynol**

Gradd neu leoliad gwaith achrededig RTPI gyda dysgu o bell.

**Sefydliad Proffesiynol**

RTPI Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol.

### PEIRIANNEG SIFIL

**Rôl y Peiriannydd Sifil.** Dylunio a rheoli prosiectau seilwaith, megis ffyrdd, pontydd a stadiymau chwaraeon.

**Llwybrau at statws proffesiynol**

- Gradd, neu HNC Lefel 4 mewn Peirianneg Sifil
- HND Lefel 5 mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig
- Lleoliad gwaith / Prentisiaeth gradd.

**Sefydliad Proffesiynol**

ICE Sefydliad y Peirianwyr Sifil.

### PEIRIANNEG STRWYTHUROL

**Rôl y Peiriannydd Strwythurol.** Dylunio a manylu ar elfennau strwythurol adeiladau a phrosiectau peirianneg sifil.

**Llwybrau at statws proffesiynol**

- Graddau MEng a BEng
- Lleoliad gwaith / Prentisiaeth gradd.

**Sefydliad Proffesiynol**

IStructE Sefydliad y Peirianwyr Strwythurol

### PEIRIANNEG GWASANAETHAU ADEILADU

**Rôl y Peiriannydd Gwasanaethau Adeiladu.** Dyluniad a manyleb gosodiadau gwasanaeth.

**Llwybrau at statws proffesiynol.** Gradd mewn gwasanaethau adeiladu, peirianneg fecanyddol neu drydanol, neu leoliad gwaith a phrentisiaeth.

**Sefydliad Proffesiynol**

CIBSE Sefydliad Siartredig y Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu.

### SYRFËO

**Rôl Syrfëwr Adeiladau/Tir.** Mesur ac asesu cyflwr ased/tir adeiledig y bwriedir ei ddatblygu.

**Llwybrau at statws proffesiynol**

Cwrs Gradd neu addysg uwch achredig RICS.

**Sefydliad Proffesiynol.**

RICS Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

### SYRFËWR MEINTIAU

**Rôl y Syrfëwr Meintiau.** Rheoli cost a chyllideb prosiect adeiladu o'r dechrau i'r diwedd.

**Llwybrau at statws proffesiynol a Sefydliad Proffesiynol**
(Gweler syrfëo)

### RHEOLI SAFLEOEDD A PHROSIECTAU

**Rôl Rheolwr Safle.** Trefnu gwaith ar y safle, gan sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau'n ddiogel, i safon, ar amser ac i'r gyllideb.

**Rôl Rheolwr Prosiect.** Goruchwylio pob agwedd ar brosiect adeiladu, gan gynnwys rhaglenni gwaith a chaffael llafur a deunyddiau.

**Llwybrau at statws proffesiynol**

BSc neu gymhwyster lefel 6 arall + 3 blynedd o brofiad perthnasol.

**Sefydliad(au) Proffesiynol**

CIOB Sefydliad Adeiladu Siartredig

ac

APM Cymdeithas Rheoli Prosiectau.

**Term allweddol: Sefydliad Proffesiynol: Sefydliad sy'n darparu statws, gwybodaeth, adnoddau, hyfforddiant, cyfleoedd i rwydweithio a dylanwadu ar syniadau am ddatblygiadau yn y dyfodol.**